# Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

## 1. Estyn Costau Adferadwy Sefydlog (CAS)

1.1 Yn 2019, bu i'r Llywodraeth ymgynghori ar weithredu'r cynigion yn adroddiad yr Arglwydd Ustus (Syr Rupert)[1] ar estyn CAS mewn achosion ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr, a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2017. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 28 Mawrth a 6 Mehefin 2019; dyma ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwnnw.

1.2 Mewn ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr, mae gan y parti buddugol hawl ar y cyfan i adennill eu costau gan y parti sydd wedi colli. Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno diwygiadau amrywiol sydd wedi helpu i reoli costau ymgyfreitha sifil; cyflwynwyd y diwygiadau hyn yn dilyn adroddiad pwysig Syr Rupert yn 2010, *Review of Civil Litigation Costs*[2] adroddiad Syr Rupert yn 2017 ar estyn y CAS yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaeth yn ei adroddiad yn 2010. Mae'r argymhellion yn adroddiad 2010 Syr Rupert wedi'u gweithredu'n helaeth, gan gynnwys cytundebau 'dim llwyddiant, dim ffi' yn Rhan 2 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012.[3] Fodd bynnag, er gwaethaf llwyddiant y diwygiadau costau yn y degawd diwethaf, sydd wedi'u crynhoi ym Mhennod 1 adroddiad 2017 Syr Rupert, mae gwaith ar estyn y CAS yn parhau. Mae'r ymateb hwn yn cyflwyno'r ffordd ymlaen.

1.3 Mae'r CAS yn nodi'r costau cyfreithiol (mewn £) y gellir eu hadfer ar wahanol gamau o ymgyfreitha, o'r cam cyn cyhoeddi i'r gwrandawiad llys. Maent yn helpu i sicrhau bod costau cyfreithiol yn parhau i fod yn bendant a chymesur ac yn hyrwyddo mynediad at gyfiawnder. Cyflwynwyd CAS am y tro cyntaf ar gyfer achosion damweiniau traffig ar y ffordd hyd at 10,000 o iawndal yn 2010.

1.4 Un o egwyddorion sylfaenol CAS yw bod costau adferadwy yn 'sefydlog', er mwyn i bartïon gael sicrwydd ynglŷn â'r swm o gostau y gallent eu hadfer, ar wahanol gamau ymgyfreitha, pan fydd barnwr yn dyrannu hawliad i fand penodol. Mewn achosion pan nad yw CAS yn berthnasol, gellir annog partïon i wario mwy i ennill, a gydnabyddir gan Syr Rupert ym Mhennod 4, 3.23 ei adroddiad 2010:

1 <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2017/07/fixed-recoverable-costs-supplemental-report-online-2-1.pdf>.

2 <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Reports/jackson-final-report-140110.pdf>.

3 Adolygiad Ôl-weithredol o Ran 2 Deddf LASPO a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror 2019: <https://www.gov.uk/government/publications/post-implementation-review-of-part-2-of-laspo>.

*Weithiau mae canlyniad y rheol symud costau, er y bydd pob parti yn cronni costau, nid yw'n gwybod pwy fydd yn talu'r bil. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ymgyfreithiwr yn credu po fwyaf y bydd ef neu hi yn ei wario mewn costau, y lleiaf tebygol yw y bydd ef neu hi yn talu'r bil yn y pen draw oherwydd bydd yr atebolrwydd costau yn symud. Os bydd y ddau barti o'r farn hon, yna bydd costau'n cynyddu heb unrhyw reolaeth briodol ac yn y pen draw bydd yn golygu y bydd un parti neu'r llall yn derbyn bil anferth ac anghymesur.*

Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn bod CAS yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol i wneud dewisiadau gwybodus ar hyd y broses ymgyfreitha, a'i bod yn briodol y dylid eu hestyn yn awr.

1.5 Gan adlewyrchu ar ei arbenigedd ym maes costau sifil, ar 11 Tachwedd 2016, cafodd Syr Rupert ei gomisiynu gan yr Arglwydd Brif Ustus (ar y pryd) a Meistr y Rholiau i gynnal adolygiad ategol o'r CAS a datblygu cynigion ar gyfer estyn y defnydd ohonynt. Nododd Syr Rupert fod hyn yn amserol, o ystyried bod y diwygiadau a argymhellwyd yn ei adroddiad 2010 wedi cael amser i ymsefydlu.

1.6 Yn ei ddarlith ar gostau sefydlog ym mis Ionawr 2016,[4] dywedodd Syr Rupert yn wreiddiol y dylai CAS fod ar waith ar gyfer pob achos sifil hyd at £250,000 o iawndal. Fodd bynnag, yn ei adroddiad yn 2017, fe argymhellodd Syr Rupert y dylid cyflwyno CAS ar gyfer achosion sifil hyd at £100,000, oherwydd bod dulliau rheoli costau eisoes yn gweithio'n dda mewn achosion gwerth uwch. Yn gryno, fe argymhellodd Syr Rupert:

i. Y dylid estyn CAS i bob hawliad sifil ar draws y llwybr carlam, gan gynnwys proses newydd a grid ar wahân o gostau ar gyfer hawliadau colli clyw a achosir gan sŵn (NIHL) o dan £25,000;

ii. Cyflwyno llwybr canolraddol, newydd a CAS cyfatebol ar gyfer hawliadau llai cymhleth o £25,000-£100,000. Fel y nodwyd ym Mhennod 5 ein papur ymgynghori, mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus ymarferoldeb cyflwyno llwybr CAS newydd, ond mae wedi dewis cyflwyno llwybr cyflym estynedig a fydd yn darparu ar gyfer 'achosion canolraddol' symlach (y byddai CAS yn berthnasol iddynt);

iii. Estyn rheolau 'Aarhus' ar draws pob adolygiad barnwrol,[5] yn ogystal â chyllidebu costau mewn achosion adolygiad barnwrol 'trwm';

[4] <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2016/01/fixedcostslecture-1.pdf>.

[5] Mae rheolau 'Aarhus' yn gostau dewisol, sy'n seiliedig ar brawf modd a ddefnyddir mewn rhai adolygiadau barnwrol amgylcheddol. Mae'r drefn yn darparu capiau ar atebolrwydd yr hawlydd a'r diffynnydd o ran costau; mae'r ffigurau hyn yn rhai dros dro neu'n rhai diofyn a gallent fod yn destun amrywiad.

iv. Y bydd gweithgor y Cyngor Cyfiawnder Sifil (CCS) yn cael ei gomisiynu i lunio proses bwrpasol a system CAS ar gyfer achosion esgeuluster clinigol hyd at £25,000;

v. Cynllun peilot gwirfoddol o gostau wedi'u capio mewn achosion busnes ac eiddo hyd at £250,000.

1.7 Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gweithredu argymhelliad Syr Rupert ar achosion esgeuluster clinigol hyd at £25,000, drwy gomisiynu adroddiad gan y CCS; felly, cafodd achosion esgeuluster clinigol eu hepgor o'n papur ymgynghori. Roedd argymhelliad Syr Rupert yn dilyn ymgynghoriad gan yr Adran Iechyd ar estyn CAS ar gyfer achosion esgeuluster clinigol yn 2017.[6] Yn yr un modd, cafodd achosion busnes ac eiddo eu hepgor o'n hymgynghoriad yn sgil y costau wedi'u capio mewn achosion o'r fath (Ionawr 2019 i Ionawr 2021).

## 2. Mynediad at Gyfiawnder

2.1 Mae mynediad at gyfiawnder ar gost gymesur i bob parti wedi bod yn elfen ganolog o ddiwygiadau'r Llywodraeth i gostau a chyllid ymgyfreitha sifil yn y blynyddoedd diweddar, yn benodol yn Rhan 2 Deddf LASPO 2012. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd CAS nid yn unig yn sicrhau mynediad at gyfiawnder, ond y bydd yn ei wella, drwy sicrhau costau adferadwy a'u bod yn gymesur. Mae CAS yn galluogi partïon i gynllunio eu hymgyfreitha yn fwy effeithiol, a'u helpu i ystyried mewn ffordd fwy gwybodus:

- a yw'n briodol (a sut) i ymgyfreitha;
- pa gostau y gellir eu hadfer (neu eu talu i'r parti buddugol); a
- sut y gall gwaith ar achos fod yn fwy cymesur.

Mae sicrwydd a chymesuredd yn bwysig iawn; ar hyn o bryd, gall costau ymgyfreitha sifil fod yn anrhagweladwy iawn, sy'n gallu atal pobl rhag gorfodi eu hawliau. Mae cymesuredd costau wedi bod yn thema ganolog yn holl ddiwygiadau Syr Rupert: mae'n briodol, yn arbennig mewn achosion costau is, y dylai costau fod yn gymesur i'r mater, sy'n golygu, yn ei dro, y dylid teilwra'r gwaith cyfreithiol i'w wneud i'r costau cymesur hynny.

2.2 Pwysleisiwyd yr angen i lysoedd ystyried cymesuredd trefniadau ariannu ymhellach gan benderfyniad y Goruchaf Lys yn *Coventry v Lawrence,* sy'n nodi'r hanes deddfwriaethol perthnasol mewn manylder.[7] Er bod y dyfarniad

[6] https://www.gov.uk/government/consultations/fixed-recoverable-costs-for-clinical-negligence-claims

[7] Mae dyfarniad y Goruchaf Lys ar gael yma: <https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2012-0076.html> (*Coventry v Lawrence* [2015] UKSC 50, [2015] 1 WLR 3485). Cyflwynir yr hanes deddfwriaethol ym mharagraffau 12-41 a 65-69. Mae paragraffau allweddol, sy'n pwysleisio'r

yn *Coventry v Lawrence* yn ymwneud yn bennaf â chymesuredd y trefniadau ariannu mewn cyd-destun cyn ac ar ôl LASPO, mae'n pwysleisio'r pwysigrwydd, mewn deddfwriaethau yn y dyfodol, o sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion yr hawlwyr a'r diffynyddion yn nhermau rheoli costau, a hefyd hybu mynediad at gyfiawnder. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai estyn CAS yw'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli costau sifil, a sicrhau hefyd bod partïon yn cyflawni'r sicrwydd angenrheidiol i gynllunio eu hymgyfreitha. Nid oes ateb perffaith, ond credwn fod CAS, fel y cynigiwyd gan Syr Rupert ers tro byd, yn rhan bwysig o'r ffordd ymlaen ar gyfer y mater cymhleth hwn.

2.3 Mae'n bwysig cydnabod bod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu setlo ac mai nifer gymharol isel sy'n mynd drwy'r holl gamau i achos llys. Er mwyn cynllunio ymgyfreitha yn effeithlon, mae angen i'r partïon fod yn llwyr ymwybodol o'r costau niweidiol y bydd y partïon yn eu hadfer os byddant yn ennill, neu'n eu talu os byddant yn colli – pe byddai achos yn symud ymlaen i dreial. Ond mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf o achosion yn cael eu setlo, ar gostau is o lawer, ar gamau cynharach. Bydd gwybod beth yw'r costau ymlaen llaw ac ar bob cam o'r broses ymgyfreitha ond yn arwain at fwy o ddisgyblaeth a sicrwydd wrth reoli costau, ac annog setliad cynharach drwy gynnig arbedion costau clir.

2.4 Mae'r achos dros estyn CAS yn dilyn llwyddiant y prosesau CAS presennol ar gyfer anafiadau personol, a gyflwynwyd ochr yn ochr â diwygiadau eraill LASPO rhwng 2010 a 2013, sydd wedi llwyddo i reoli costau sifil a hefyd hybu'r mynediad at gyfiawnder. Ym mharagraff 6.29 ei adolygiad o Strwythur y Llysoedd Sifil yn 2016, a elwir yn Adolygiad Briggs, dywed yr Arglwydd Ustus Briggs (fel yr oedd bryd hynny):

*Mae system costau adferadwy sefydlog neu a gyllidebwyd, wedi'i hategu gan broses Symud Costau Un Ffordd Cymwys ('QOCS') ac iawndal uwch, ym maes ymgyfreitha anafiadau personol (gan gynnwys esgeuluster clinigol) wedi bod yn hyrwyddwr pwerus mynediad at gyfiawnder, mewn maes lle mae'r maes chwarae'n gogwyddo'n amlwg ar yr olwg gyntaf yn erbyn yr hawlydd unigol, yn wynebu cwmni yswiriant fel y diffynnydd gwirioneddol (hyd yn oed os nad yw'n enwol*.[8]

---

anhawster o ganfod dull o ariannu ymgyfreitha sifil sy'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng buddiannau'r hawlwyr a'r diffynyddion, wedi'u nodi yn y dyfarniad adolygiad barnwrol a gyflwynwyd gan Ms Esther Leighton yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2020: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2020/336.html> (*Leighton, R v Yr Arglwydd Ganghellor* [2020] EWHC 336 (Gwein)). Gweler, yn benodol, paragraff 114 (Sylwodd mwyafrif yr Uchel Lys nad oes ateb perffaith i'r broblem o'r ffordd orau i wella mynediad at gyfiawnder [mewn achosion sifil).

8 <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2016/07/civil-courts-structure-review-final-report-jul-16-final-1.pdf>.

2.5 Yn ogystal, mae barn y Llywodraeth bod prosesau presennol CAS anafiadau personol wedi hybu mynediad at gyfiawnder i ddiffynyddion, drwy alluogi iddyn nhw amddiffyn achos yn ôl ei rinweddau ei hun, yn hytrach na setlo oherwydd yr ofn o gostau uchel. O’r herwydd, am y rhesymau a nodir uchod, gellir dadlau bod CAS yn cydbwyso buddiannau hawlwyr a diffynyddion yn ofalus, drwy ddarparu mynediad priodol at gyfiawnder am gost gymesur.

2.6 Mae’n werth nodi hefyd y dadansoddiad annibynnol diweddar o gostau ymgyfreitha sifil, gan yr Athro Paul Fenn a’r Athro Neil Rickman (2019)[9]. Bu i Fenn a Rickman ddadansoddi samplau sylweddol o hawliadau anafiadau personol (ac eithrio esgeuluster clinigol) dros £25,000 o iawndal, a hawliadau esgeuluster clinigol o dan £250,000 o iawndal, a oedd yn dod i ben o fewn dwy flynedd cyn ac ar ôl LASPO. Hon yw’r ffynhonnell ddata fwyaf cynhwysfawr ar gyfer y newidiadau i gostau sifil cyn ac ar ôl LASPO. Mae eu dadansoddiad data yn dangos bod y costau sylfaen gwirioneddol a adferwyd wedi lleihau o ychydig o dan 8% ar gyfer achosion anafiadau personol ac ychydig o dan 10% ar gyfer achosion esgeuluster clinigol. Mae hyn darparu arwydd cryf bod amserlenni CAS ar gyfer anafiadau personol cost isel, ochr yn ochr â diwygiadau eraill LASPO, wedi gwneud cyfraniad sylweddol i leihau costau ymgyfreitha sifil yn y blynyddoedd diwethaf.

2.7 Felly, am resymau sydd wedi’u cefnogi gan brofiad cadarn, mae’r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol estyn CAS ar draws achosion sifil yn gyffredinol. Roedd Syr Rupert yn cynnig strwythur pedwar band ar gyfer yr achosion llwybr carlam ac achosion canolraddol, ac mae’r Llywodraeth yn cefnogi hyn (gweler isod). Ceisia’r cynigion hyn gydbwyso manteision cynllun costau cymharol syml a hawdd eu dilyn gyda’r angen am gostau sydd wedi’u gwella’n briodol mewn achosion eithriadol.

2.8 Bydd y costau, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ddibynnol ar y swm o iawndal a adferwyd, sy’n cefnogi amcan cymesuredd CAS. Fodd bynnag, mae ein cynigion yn cydnabod na fydd pwysigrwydd a natur gymhleth achos bob amser yn cael ei bennu gan ei werth yn unig, a bydd achosion o’r fath yn cael eu dyrannu i fand uwch, fel y bo’n briodol.

2.9 Yn gryno, felly, bydd y CAS yr ydym yn eu cynnig yn gwella mynediad at gyfiawnder drwy (i) cael eu pennu ar lefel sy’n adlewyrchu pwysigrwydd achos penodol (sydd, os yw’n briodol, yn gallu bod yn uwch na’i werth ariannol mewn iawndal); a (ii) drwy wneud lwfansau priodol rhwng gwahanol fathau o achosion.

## 3. Ein Cynigion

[9] Mae’r adroddiad ar gael yma: https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=3326665.

3.1 Yn yr ymgynghoriad, cytunodd y Llywodraeth ag argymhellion Syr Rupert ar CAS, fel y nodwyd yn 1.5 uchod, gyda'r eithriadau canlynol:

i. Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r egwyddor o estyn CAS i'r holl achosion a argymhellwyd gan Syr Rupert ar gyfer ei lwybr canolraddol arfaethedig. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod angen cyflwyno llwybr newydd, gyda'r costau a'r cymhlethdodau y byddai hyn yn ei achosi. Yn hytrach, fe wnaethom ymgynghori ar aseinio'r achosion canolraddol hyn i lwybr carlam estynedig (sy'n golygu y bydd rhai achosion 'canolraddol' symlach, fel y'u nodwyd gan Syr Rupert, yn cael eu dyrannu i system llwybr carlam, pan fo hynny'n briodol). Dylai hyn greu mwy o gysondeb a symlrwydd.

ii. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig estyn rheolau 'Aarhus' ar draws pob achos adolygiad barnwrol, am y rhesymau a nodwyd ym Mhennod 6, 2.4 ein papur ymgynghori.

3.2 Yn ei adroddiad 2017, fe gyflwynodd Syr Rupert yr achos a'r dull ar gyfer estyn CAS. Wrth ystyried y system CAS llwybr carlam bresennol ym Mhennod 5, 2.4 ei adroddiad, mae'n nodi: *Yn gyffredinol, mae'n gweithio'n foddhaol, fel y mae llawer o'r ymatebwyr i fy mhapur ymgynghori diweddar yn ei dderbyn. Nid wyf yn cynnig unrhyw newidiadau iddo, ar wahân i uwchraddio ar gyfer chwyddiant.*

3.3 Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r asesiad hwn ac, o gofio costau uchel parhaus ymgyfreitha sifil yn fwy eang ac yn benodol costau anghymesur mewn hawliadau sifil gwerth isel eraill, roedd o'r farn ei bod yn briodol cymhwyso CAS yn fwy eang ac y dylid ymgynghori arnynt ar y sail hon.

3.4 Yn gryno, felly, bu i'r Llywodraeth ymgynghori ar y cynigion canlynol:

i. Estyn CAS i bob achos sifil arall yn y llwybr carlam, hyd at £25,000 o iawndal (gweler Pennod 3 ein papur ymgynghori);

ii. Proses newydd a CAS ar gyfer hawliadau NIHL (gweler Pennod 4 ein papur ymgynghori);

iii. Estyn y llwybr carlam i gynnwys achosion 'canolraddol' symlach sydd â gwerth o rhwng £25,000-£100,000 o iawndal (gweler Pennod 5 ein papur ymgynghori);

iv. Cyflwyno proses cyllidebu costau mewn adolygiadau barnwrol 'trwm' (gweler Pennod 6 ein papur ymgynghori).

3.5 Gofynnodd y Llywodraeth hefyd am: sylwadau ar y cynigion yn y papur ymgynghori nad oeddent wedi'u cynnwys gan gwestiynau blaenorol (gweler

Pennod 8); tystiolaeth/data pellach y dylai'r Llywodraeth eu hystyried fel rhan o'i hymateb i'r ymgynghoriad (gweler Pennod 9); a, safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion ar gydraddoldeb (gweler Pennod 10).

3.6 Cafodd y ffigurau arfaethedig ar gyfer CAS eu llunio gan Syr Rupert, yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan Taylor Rose (cwmni cyfreithwyr a chyfreithwyr costau) a ddadansoddwyd gan yr Athro Paul Fenn.[10] Yna bu i Syr Rupert ymgynghori â'i dîm o bedwar ar ddeg o aseswyr, gan dynnu ar safbwyntiau a phrofiad eang (o safbwynt hawlwyr a diffynyddion), a chyflwynodd ei arbenigedd sylweddol ei hun wrth gwblhau'r ffigurau. O ganlyniad, rydym o'r farn bod y ffigurau wedi'u llunio gyda'r trylwyredd priodol. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn (gweler Pennod 5, paragraff 20.1), bydd y ffigurau hyn yn cael eu huwchraddio ar gyfer chwyddiant cyn eu cyflwyno, fel y bwriadodd Syr Rupert yn wreiddiol.

3.7 Wrth ddarllen yr ymateb hwn, bydd angen i bartïon sydd â diddordeb ymgyfarwyddo â manylion adroddiad Syr Rupert,[11] ac ymgynghoriad y Llywodraeth;[12] dim ond rhai ohonynt sy'n cael eu hailadrodd yma.

## 4. Y Ffordd Ymlaen

4.1 Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r estyniad i'r CAS.

4.2 Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil i sicrhau bod y diwygiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n ddidrafferth. Fel yr amlinellir isod ac yn y prif ymateb, rydym yn glir yn ein hamcanion ynghylch yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni drwy CAS mewn egwyddor, ond bydd angen i ni drafod y manylion gweithredu gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil.

4.3 Fel yr ydym yn esbonio ym mharagraffau 4.4 a 13.2-3 Pennod 5, nid yw'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol, ar hyn o bryd, i roi canllawiau pellach ar bennu band ar gyfer achosion llwybr carlam a chanolraddol. Yn hytrach, cyfrifoldeb y partïon a'r barnwyr yw llunio casgliadau synhwyrol ar fandio yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd. Er gwaethaf ceisiadau gan ymatebwyr, o safbwynt hawlwyr a diffynyddion, am fanylion pellach, nid oedd Syr Rupert na'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gallu amlinellu beth allai hyn ei gynnwys.

---

[10] Gweler Jackson (2017), Pennod 3, 3.1 mae'r Athro Fenn, aseswr i adolygiadau 2010 a 2017 Syr Rupert, yn athro emeritws yn Ysgol Fusnes Prifysgol Nottingham ac yn gynghorydd polisi ar faterion costau i'r Llywodraeth, y farnwriaeth, a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae Taylor Rose TTKW yn gyfreithwyr ac yn gyfreithwyr costau.

[11] <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2017/07/fixed-recoverable-costs-supplemental-report-online-2-1.pdf>.

[12] <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fixed-recoverable-costs-consultation/>.

Daw eglurder pellach dros amser gyda phrofiad. Os daw i'r amlwg y gall y Llywodraeth ddarparu canllawiau pellach, yna bydd yn gwneud hynny.

4.4 Mae'n fuddiol ailddatgan egwyddorion sylfaenol CAS, sy'n ceisio, fel yr ysgrifenna Syr Rupert ym Mhennod 1, 1.3 ei adroddiad ar CAS:

*i.* *addasu'r rheolau gweithdrefnol, gyda'r nod o leihau costau gwirioneddol cymaint â phosibl.*

ii. *cyfyngu costau adferadwy i'r hyn sy'n 'gymesur', fel y'i diffinnir yn y rheol newydd ar gymesuredd*;[13] *a*

iii. *rheoli costau adferadwy ymlaen llaw.*

Yn dilyn argymhelliad Syr Rupert, mae'r Llywodraeth yn credu mai manteision cynllun costau wedi'i symleiddio, fel y CAS, yw (i) lleihau costau gwirioneddol (drwy weithdrefn symlach); (ii) sicrhau bod costau yn gymesur; a (iii) rheoli costau ymlaen llaw, sy'n hybu sicrwydd a disgyblaeth ac yn annog setliad cynharach. Mewn egwyddor, felly, dyma fydd y cynllun CAS newydd yn ceisio ei gyflawni ac, wrth wneud hynny, byddant yn gwella mynediad at gyfiawnder. Wedi dweud hynny, mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymwybodol bod angen i gostau gael eu pennu ar y lefel gywir er mwyn i gynllun CAS lwyddo, o fewn strwythur cyffredinol sy'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng symlrwydd a sicrhau ei fod yn ystyried nodweddion achosion unigol.

4.5 Bydd y Llywodraeth yn gallu egluro bod y cynlluniau CAS newydd, ar gyfer yr achosion llwybr carlam a chanolraddol, yn parhau i gael eu hadolygu'n gyffredinol. Bydd y camau i estyn CAS yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn.

## 5. Cwestiwn 1: Y Llwybr Carlam

5.1 **Y Llwybr Carlam:** Byddwn yn gweithredu ein cynigion i estyn CAS i bob achos sifil arall yn y llwybr carlam sydd â gwerth o hyd at £25,000 o iawndal, fel y cynigiwyd yn wreiddiol gan Syr Rupert.

5.2 **Bandio:** Bydd pob achos llwybr carlam yn cael eu rhannu i un o bedwar band o gymhlethdod, fel y'u nodir yn y systemau CAS presennol. Mae manylion y bandiau cymhlethdod hyn yn cael eu hamlinellu ym Mhennod 3 ein papur ymgynghori.

---

[13] Cafodd y Rheol CPR 44.3 (5), y rheol newydd ar gymesuredd, ei chynnig yn adroddiad 2010 Syr Rupert ym Mhennod 3, paragraff 5.15: <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Reports/jackson-final-report-140110.pdf>. Cafodd y rheol newydd ar gymesuredd ei mabwysiadu ar 1af Ebrill 2013.

5.3 **Ffioedd y Cwnsler:** Mae Syr Rupert yn argymell y dylid clustnodi ffioedd y cwnsler ym Mand 4 ac mewn achosion NIHL yn unig. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â hyn, a bydd yn gweithredu cynnig Syr Rupert ar ffioedd y cwnsler.

5.4 **Atebolrwydd costau:** Mae Syr Rupert yn argymell y dylai her band aflwyddiannus arwain at atebolrwydd costau o £150. Byddwn yn gweithredu'r cynnig hwn ac yn parhau i'w adolygu.

5.5 **'Is-gymal gadael':** Fel y cynigiwyd gan Syr Rupert ym Mhennod 5, 5.20 ei adroddiad 2017, bydd y ddarpariaeth bresennol yn CPR 45.29J, sy'n galluogi parti i adael y CAS yn y llwybr carlam mewn amgylchiadau eithriadol, yn parhau i fod yn berthnasol.

5.6 **Salwch gwyliau pecyn/llogi credyd:** Yn unol ag argymhelliad Syr Rupert, mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd hawliadau salwch gwyliau pecyn yn cael eu cynnwys ym Mand 2. Gallwn gadarnhau hefyd y bydd hawliadau llogi credyd yn cael eu cynnwys ym Mand 1.

5.7 **Cadarnhau'r rheolau:** Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r rheolau i atgyfnerthu rôl disgresiwn barnwrol yn y broses, oherwydd gallai hyn fod yn rhy ragnodol, ond byddent yn croesawu safbwyntiau'r CPRC o ran a oes angen unrhyw gamau atgyfnerthu pellach.

5.8 **Cynigion rhan 36:** Bydd y Llywodraeth yn gweithredu cynnydd o 35% o CAS; byddai hyn yn berthnasol i'r cam yn ystod ac ar ôl i'r cyfnod perthnasol o dan gynnig Rhan 36 ddod i ben.

5.9 **Ymddygiad afresymol:** Rydym o'r farn y bydd cosb briodol am ymddygiad afresymol yn ystod ymgyfreitha yn gynnydd canran ar CAS o 50%.

5.10 **Cynnydd ar gyfer hawlwyr ychwanegol:** Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cyflwyno cynnydd o 25% o CAS am bob hawlydd ychwanegol, mewn hawliadau sy'n deillio o'r un gyfres o ffeithiau.

5.11 **Pwysiad Llundain:** Gall y Llywodraeth egluro bod y darpariaethau presennol ar gyfer pwysiad Llundain mewn systemau CAS llwybr carlam, sy'n *darparu ar gyfer ymgodiad o 12.5% ar gostau sefydlog sy'n daladwy i barti sy'n byw yn ardal Llundain ac sy'n cyfarwyddo cynrychiolydd sy'n arfer yn ardal Llundain*[14], yn berthnasol i bob proses newydd CAS.

## 6. Cwestiwn 2: NIHL

[14] Nodir hyn yn rheol CPR 45.29C (2), rheol 45.29F (5) a Chyfarwyddyd Ymarfer 45 paragraff 2.6.

6.1 **Llwybr Carlam ar gyfer hawliadau NIHL:** Bydd y Llywodraeth yn gweithredu proses newydd a grid ar wahân o CAS ar gyfer hawliadau NIHL yn y llwybr carlam sydd â gwerth o lai na £25,000 o iawndal, fel y nodwyd yn ein papur ymgynghori.

6.2 **Y broses cyn ymgyfreitha a llythyrau hawlio drafft:** Byddwn yn gweithredu cynigion ein hymgynghoriad i'w gwneud yn ofynnol i gamau gweithredu gorfodol penodol gael eu gweithredu gan yr hawlwyr a'r diffynyddion mewn llythyrau hawlio ac ymateb NIHL.

6.3 **Cyfarwyddiadau safonol:** Er bod y Llywodraeth yn cytuno â'r CCS yn ei adroddiad yn 2017 y byddai cyfarwyddiadau safonol yn creu dull mwy syml, a fyddai'n helpu partïon a llysoedd i reoli achosion NIHL yn fwy effeithlon,[15] rydym yn ystyried y dylai'r diwydiant fwrw ymlaen â'r rhain.

6.4 **Treialon rhagarweiniol ar wahân:** Rydym yn cydnabod y gallai'r treialon rhagarweiniol helpu i benderfynu ar faterion mewn anghydfod. Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylid annog treialon rhagarweiniol pan fyddant yn cyflawni'r diben hwn, ond na ddylid eu hannog pan nad oes eu hangen.

## 7. Cwestiwn 3: Achosion Canolraddol

7.1 **Achosion Canolraddol:** Fel y nodwyd yn ein papur ymgynghori, bydd y Llywodraeth yn ehangu'r llwybr carlam i gynnwys achosion 'canolraddol' sydd â gwerth o rhwng £25,000-£100,000 mewn iawndal (gweler paragraffau 1.6 a 3.1, uchod).

7.2 **Ffioedd llys:** Rydym yn bwriadu cynnal y ffioedd llys aml-lwybr presennol ar gyfer achosion canolraddol, ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

7.3 **Eithriadau:** Gall y Llywodraeth gadarnhau y bydd mesothelioma/asbestos, anafiadau personol cymhleth ac esgeuluster proffesiynol, gweithredoedd yn erbyn yr heddlu, cam-drin plant yn rhywiol, ac eiddo deallusol yn cael eu heithrio o achosion canolraddol, fel y cynigiodd Syr Rupert yn wreiddiol.

7.4 **Bandio:** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cadw'r strwythur pedwar band fel y cynigiwyd gan Syr Rupert. Bydd y strwythur hwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd, i sicrhau bod achosion penodol yn cael eu cyfateb â bandiau priodol.

---

[15] Mae adroddiad 2017 y CCS ar gostau sefydlog yn hawliadau NIHL ar gael yma:<https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2017/09/fixed-costs-in-noise-induced-hearing-loss-claims-20170906.pdf>.

7.5 **Meini prawf dyrannu:** Nid ydym yn cynnig bod yn fwy rhagnodol o ran y meini prawf dyrannu ar gyfer achosion canolraddol y tu hwnt i'r rhai a gynigiwyd gan Syr Rupert. Er bod yr ymatebwyr wedi dadlau dros yr angen i ddarparu manylion pellach, mae'n werth nodi na roddwyd unrhyw awgrymiadau penodol i'r Llywodraeth eu hystyried. Rydym yn cynnal y farn mai rôl y barnwyr fydd arfer eu disgresiwn a sicrhau bod achosion canolraddol yn cael eu dyrannu'n briodol, yn unol â'r meini prawf a nodir ym Mhennod 5, 2.1 ein papur ymgynghori. Mae'r Llywodraeth o'r farn na ddylid caniatáu i unrhyw achos gael eu heithrio o'r system CAS arfaethedig, oni fydd amgylchiadau eithriadol.

7.6 **Cyfarwyddyd Ymarfer:** Mae'r Llywodraeth yn nodi argymhelliad Syr Rupert y gallai Cyfarwyddyd Ymarfer newydd fod yn ddefnyddiol, yn debyg i CPR 26.8, i (i) roi canllawiau ar ddyrannu, a (ii) dangos y wybodaeth sydd ei hangen ar y llys i wneud dyraniad band priodol Bydd y Llywodraeth yn ystyried hyn gyda'r CPRC, maes o law, er mwyn penderfynu a fyddai Cyfarwyddwyd Ymarfer o'r fath yn ddefnyddiol.

7.7 **Atebolrwydd costau:** Rydym yn cytuno ag argymhelliad Syr Rupert y dylai her aflwyddiannus wrth ddyrannu arwain at atebolrwydd costau o £300, a byddwn yn parhau i adolygu hyn. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn y gallai herio dyraniad band (neu wrthod her) heb sail ddigonol gynrychioli ymddygiad afresymol, a allai arwain at gosbau costau pellach.

## 8. Cwestiwn 4: Adolygiad Barnwrol

8.1 **Cyllidebu costau mewn Adolygiadau Barnwrol 'trwm':** Mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'i chynigion i gyflwyno system cyllidebu costau ar gyfer pob adolygiad barnwrol 'trwm', fel yr amlinellwyd yn ein hymgynghoriad. Rydym wedi ystyried camau gweithdrefnol yn ofalus i gyd-fynd â'r cynnig hwn.

## 9. Cwestiwn 5: Camau Nesaf

9.1 **Chwyddiant:** Bydd y Llywodraeth yn uwchraddio'r ffigurau ar gyfer y CAS yr ydym wedi ymgynghori arnynt, a oedd yn seiliedig ar adroddiad 2017 Syr Rupert, ar gyfer chwyddiant, yn unol â'r Mynegai Prisiau Cynhyrchydd Gwasanaethau (SPPI).

9.2 **Dyddiad Gweithredu:** Rydym yn awyddus, wrth eu gweithredu, y dylai'r CAS fod yn berthnasol i gymaint o achosion ag sy'n ymarferol bosibl, o fewn y cohort o achosion sy'n cael eu cynnwys. Bydd hyn yn golygu'r achosion hynny pan fydd y ddamwain neu'r achos gweithredu yn digwydd ar ôl y

dyddiad gweithredu, neu mewn achosion o afiechyd neu achosion cyfatebol, pan nad oes unrhyw lythyr hawlio wedi'i gyhoeddi cyn y dyddiad gweithredu.

## 10. Cwestiynau 7-10: Datganiad Cydraddoldeb

10.1 **Datganiad Cydraddoldeb:** Rydym wedi ystyried effeithiau ein cynigion ar gydraddoldeb yn ofalus iawn. Yn benodol, rydym wedi ystyried adroddiad y CCS, *Vulnerable Witnesses and Parties within Civil Proceedings,* a gyhoeddwyd yn Chwefror 2020 ar ôl i'n hymgynghoriad ddod i ben, sy'n gwneud nifer o argymhellion i wella profiad partïon agored i niwed mewn achosion sifil.[16] Codwyd effaith estyn y CAS ar hawlwyr agored i niwed hefyd gan ymatebwyr (gweler Pennod 4, paragraffau 25.2-5), a oedd yn dadlau y byddai hawlwyr agored i niwed yn creu costau ychwanegol na fyddent yn cael eu creu heb nodweddion gwarchodedig penodol anableddau, ac y byddai angen ystyried hyn yn y systemau CAS arfaethedig. Er nad ydym yn cynnig diffinio beth yw bod yn agored i niwed yn gyffredinol, oherwydd gallai hyn fod yn rhy ragnodol, rydym yn derbyn y gallai fod sail ar gyfer gwneud eithriadau cyfyngedig i CAS ar gyfer nodweddion penodol bod yn agored i niwed, yn hytrach na lwfansau mwy eang a fyddai'n mynd yn groes i amcanion y CAS. Felly, gwnawn y cynigion canlynol:

i. Rydym yn cynnig y gallai system CAS llwybr carlam newydd gwmpasu nodweddion penodol bod yn agored i niwed sydd wedi'u nodi yn y canllawiau i'r Cynllun Eiriolaeth i Deuluoedd cymorth cyfreithiol, ac y gallai cynnydd canran o CAS (25%, i gyd-fynd â'r 25% ychwanegol sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y Cynllun Eiriolaeth i Deuluoedd i'r rhai sy'n cael anhawster i roi cyfarwyddiadau, o ganlyniad i nam meddyliol wedi'i wirio) fod ar gael ar gyfer y partïon hynny sy'n cyflawni'r meini prawf hyn, yn dilyn ardystiad barnwrol. Byddwn yn ystyried gyda'r CPRC sut y gellir diwygio'r Holiadur Cyfarwyddiadau i ymgorffori'r cynnydd canran hwn.

ii. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen taliadau ychwanegol ar gyfer nodweddion penodol bod yn agored i niwed (er enghraifft pan fydd angen dehonglydd iaith arwyddion). Byddwn yn ystyried gyda'r CPRC pa drefniadau sy'n briodol ar gyfer taliadau ac sy'n gyson â nodau'r CAS.

iii. Wrth lunio'r rheolau i'w hystyried gan y CPRC, byddwn yn ystyried a ddylid estyn y trefniadau ar gyfer setliadau ar gyfer partïon gwarchodedig (oedolion nad ydynt yn meddu ar y gallu meddyliol a

[16] Mae adroddiad y CCS, Chwefror 2020, ar dystion a phartïon sy'n agored i niwed mewn achosion sifil ar gael yma: <VulnerableWitnessesandPartiesFINALFeb2020-1-1.pdf (judiciary.uk)>

phlant, mewn achosion damweiniau traffig ar y ffyrdd) i’r systemau CAS newydd.